*This document is available in English* **Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Hydref 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Paul Kay, Pennaeth Diogelwch Tân** |
| Pwnc | **Adroddiad Archwilio Cymru: Diffodd Tanau'r Dyfodol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Archwilio Cymru o fis Gorffennaf 2025, 'Diffodd Tanau'r Dyfodol'. Adolygodd yr adroddiad ar ddull Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o dargedu gwaith atal tân.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Archwilio Cymru wedi cwblhau archwiliad perfformiad o strategaeth atal tân yr Awdurdod, gan ganolbwyntio ar ba mor effeithiol y mae'n targedu ei adnoddau tuag at yr aelwydydd mwyaf agored i niwed. Mae'r adroddiad yn cydnabod meysydd lle ceir ymarfer addawol, gan gynnwys defnyddio data'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac ailymweld ag aelwydydd risg uchel. Fodd bynnag, mae'n nodi bylchau mewn targedu systematig, asesu gwerth am arian, ac ymgysylltu cynhwysol. Mae dau argymhelliad ffurfiol wedi'u gwneud i gryfhau dull gweithredu'r Awdurdod.

**ARSYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

3 Cafodd y Pwyllgor Archwilio yr adroddiad ar 15 Medi 2025. Gofynnodd yr Aelodau a oedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) wedi ystyried defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi data er mwyn rhagweld tueddiadau. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r Gwasanaeth, er eu bod yn canolbwyntio ar gydweithio â phartneriaid ledled Cymru ar hyn o bryd, yn parhau i fonitro technolegau newydd a sut y gellid eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau gwell. Penderfynodd yr Aelodau dderbyn yr argymhellion.

**ARGYMHELLIAD**

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Nodi canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Archwilio Cymru;**

**ii) Cymeradwyo datblygu cynllun gwella wedi'i dargedu sy'n mynd i'r afael â'r ddau argymhelliad; a**

**iii) Gofyn am ddiweddariad cynnydd yn Ch1 2026–27 ar gamau i roi'r argymhellion ar waith.**

**CEFNDIR**

5 Cynhaliwyd yr archwiliad o dan Adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac fe'i llywiwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd yn canolbwyntio ar waith atal tân ar lefel aelwydydd, ac eithrio addysg ieuenctid, lleihau tanau gwyllt, a diogelwch ar y ffyrdd.

**GWYBODAETH**

6 Mae adroddiad Archwilio Cymru yn rhoi golwg gytbwys ar waith atal yr Awdurdod, gan gydnabod sawl maes lle ceir cryfder a thynnu sylw at gyfleoedd i ddatblygu.

7 Mae'r gweithgareddau cadarnhaol y tynnwyd sylw atynt yn cynnwys:

- Gostyngiad o 33% mewn tanau mewn anheddau a gostyngiad o 43% mewn anafiadau yn sgil tanau ers 2009–10;
- Defnyddio offer mapio a data'r GIG i nodi ac olrhain aelwydydd risg uchel;
- Ailymweld â chartrefi risg uwch, gan gydnabod bod ffactorau risg yn aml yn cynyddu dros amser;
- Gwiriadau sicrhau ansawdd ar gyfer swyddogion arbenigol a chriwiau tân;
- Hyfforddiant partneriaid i wella cywirdeb a chysondeb atgyfeirio; a
- Dangosfwrdd perfformiad ac adrodd rheolaidd i uwch arweinwyr.

8 Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Mae gan yr Awdurdod ddull targedu sylfaenol da ond gallai fod yn fwy cyson. Dim ond 29.4% o wiriadau diogelwch yn y cartref oedd mewn cartrefi risg uwch, sy'n awgrymu bod lle i fireinio ei bwyslais.
- Erys bylchau yn y data – yn enwedig o ran unigolion ynysig a risgiau sy'n dod i'r amlwg.
- Gallai achosion atgyfeirio ac achosion sy’n seiliedig ar ddata gael eu trin yn wahanol, a allai arwain at ganlyniadau anghyfartal.
- Mae data cydraddoldeb yn gyfyngedig, gan ei gwneud hi'n anoddach dangos cydymffurfiaeth â dyletswyddau cyfreithiol.
- Mae’r craffu gan yr Aelodau wedi bod yn gyfyngedig, a gallai’r gwaith dysgu gwersi yn sgil digwyddiadau fod yn fwy systematig.

9 Mae'r adroddiad yn gwneud dau argymhelliad: un ar wella sut i nodi a chyrraedd unigolion risg uwch; ac un ar gryfhau dealltwriaeth yr Awdurdod o'r gwerth y mae ei weithgareddau atal yn ei ychwanegu.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad yn cefnogi ymrwymiad y Gwasanaeth i waith atal a datblygu cynaliadwy, ond mae'n tynnu sylw at yr angen am fwy o ymgysylltu cynhwysol a gwerthuso systematig. |
| Cyllideb | Cafodd yr Awdurdod £240,000 yn 2023–24 ar gyfer offer diogelwch yn y cartref. Mae pwysau ariannu, gan gynnwys colli grantiau lleihau tanau bwriadol a chostau offer cynyddol, yn golygu bod angen blaenoriaethu gweithgareddau atal craidd. |
| Cyfreithiol | Mae'r canfyddiadau'n ymwneud â chydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae angen gwelliannau yn y defnydd o ddata ac ymgysylltu â'r gymuned i ddangos ein bod yn cyd-fynd â'r gyfraith. |
| Staffio | Nid oes unrhyw oblygiadau staffio uniongyrchol, ond mae angen o bosibl am well hyfforddiant a sicrhau ansawdd i swyddogion a phartneriaid sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau a gwiriadau diogelwch yn y cartref. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r adroddiad yn nodi bylchau o ran monitro nodweddion gwarchodedig a dangosyddion economaidd-gymdeithasol. Bydd camau yn cael eu cymryd i wella cynhwysiant a darparu gwasanaethau dwyieithog. |
| Risgiau | Risg o fethu unigolion risg uchel oherwydd bylchau yn y data neu arferion atgyfeirio anghyson.<br>Risg o ganlyniadau anghyfartal ar gyfer aelwydydd tebyg oherwydd y trothwyon targedu ar hyn o bryd.<br>Risg o leihau effaith gwaith atal os nad yw pwysau ariannu yn cael eu lliniaru. |